# Public Document Pack

Neuadd y Sir / County Hall, Llandrindod, Powys, LD1 5LG

Os yn galw gofynnwch am - If calling please ask for

Jeremy Patterson

Stephen Boyd

Chief Executive

*Ffôn / Tel:* 01597 826374
*Ffôn Symudol / Mobile:*
*Llythyru Electronig / E-mail:* steve.boyd@powys.gov.ukl

**COUNTY COUNCIL**
**Wednesday, 9th March, 2016**

## S U P P L E M E N T A R Y  P A C K

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **MINUTES** | **CC23- 2016** |

To authorise the Chair to sign the minutes of the last meeting as a correct record.
(Pages 3 - 8)

This page is intentionally left blank

**COFNODION CYFARFOD Y COUNTY COUNCIL A GYNHALIWYD COUNCIL CHAMBER - COUNTY HALL, LLANDRINDOD WELLS AR 25AIN CHWEFROR 2016**

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir PJ Ashton (Chair)

Y Cynghorwyr Sir M C Alexander, D Bailey, GR Banks, R G Brown, J H Brunt, LV Corfield, K W Curry, A W Davies, D E Davies, E R Davies, L R E Davies, S C Davies, S Davies, M J Dorrance, D O Evans, V E Evans, W J Evans, L Fitzpatrick, R I George, MR Harris, P Harris, S M Hayes, A Holloway, J C Holmes, E A Jones, D C Jones, D R Jones, M J Jones, E M Jones, G M Jones, J R Jones, W T Jones, F H Jump, H Lewis, P E Lewis, M C Mackenzie, DJ Mayor, S McNicholas, R H Mills, P J Medlicott, E T Morgan, G Morgan, J G Morris, W J T Powell, W D Powell, G D Price, D R Price, P C Pritchard, G W Ratcliffe, K M Roberts-Jones, K S Silk, KF Tampin, D A Thomas, W B Thomas, A G Thomas, D G Thomas, R G Thomas, TG Turner, T J Van-Rees, G P Vaughan, D H Williams, S L Williams, J M Williams, G I S Williams ac E A York

| 1. | YMDDIHEURIADAU | CC15 - 2016 |
|---|---|---|

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Sir G J Bowker, M J B Davies, C J Gibson-Watt, G G Hopkins, Eldrydd M. Jones, D W Meredith a J G Shearer.

Gofynnodd y Cynghorwyr i'r Cadeirydd ysgrifennu at y Cynghorydd Bowker yn ei llongyfarch ar enedigaeth ei merch.

| 2. | COFNODION | CC16 - 2016 |
|---|---|---|

Awdurdodwyd y Cadeirydd i arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2016 fel cofnod cywir.

| 3. | DATGANIADAU O FUDDIANT | CC17 - 2016 |
|---|---|---|

Datganodd y Cynghorydd Sir T J Van-Rees fuddiant sy'n rhagfarnu pan fyddai Stad Ffermydd y Sir yn cael ei drafod fel rhan o'r drafodaeth ar y Rhaglen Gyfalaf.

| 4. | DATGANIAD BLYNYDDOL AM Y DDARPARIAETH ISAFSWM REFENIW DDIWYGIEDIG 2016/17 | CC18 - 2016 |
|---|---|---|

Ystyriodd y Cyngor y dull a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) ar gyfer 2016/17. Esboniodd yr Aelod Portffolio - Cyllid mai'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw oedd y tâl blynyddol y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer ad-dalu atebolrwydd am ddyled. Dylid ystyried hyn yng nghyd-destun y gofyniad cyllido cyfalaf sy'n wariant cyfalaf nad yw'n cael ei ariannu o adnoddau refeniw, grantiau cyfalaf neu dderbynebau, ond o fenthyca. Cynigiwyd newid y dull o gyfrifo'r MRP o gyfradd o 4% ar sail ostyngol i 2% ar sail llinell syth. Cafwyd cyngor proffesiynol annibynnol manwl a nodwyd bod Archwilydd Cyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru wedi ysgrifennu'n ddiweddar at holl awdurdodau Cymru yn cadarnhau bod yr addasiad i'r polisi yn fater i'w

benderfynu'n lleol. Eglurodd yr Aelod Portffolio - Cyllid y byddai hyn yn byrhau'r cyfnod dros yr hwn y byddai benthyciadau yn cael eu had-dalu ac yn dod â mwy o sicrwydd ynghylch y cyfnod o amser y byddai angen gwneud taliadau yn y dyfodol. Amcangyfrifwyd y byddai newid i'r dull hwn yn arbed £3 miliwn yn 2016/17.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad: |
|---|---|
| **1. Defnyddio cyfrifiad llinell syth 2% ar gyfer MRP mewn perthynas â Benthyca â Chymorth.** | **Gofyniad Statudol** |
| **2. Defnyddio Opsiwn 3 sef y Dull Blwydd-dal Oes Asedau ar gyfer cyfrifo'r MRP mewn perthynas â Benthyca Darbodus.** | **Gofyniad Statudol** |
| **3. Defnyddio gweddill gostyngol 2% ar gyfer MRP mewn perthynas â Dyled Hanesyddol a Dyled y Setliad ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai** | **Gofyniad statudol** |
| **4. Defnyddio Oes Asedau Opsiwn 3 ar gyfer cyfrifo'r MRP mewn perthynas â Benthyca Darbodus ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (HRA)** | **Gofyniad Statudol** |
| **5. Manteisio ar y canllawiau sy'n caniatáu i MRP gael ei ohirio ar gyfer asedau sy'n cael eu hadeiladu.** | **Cyfateb cost MRP â'r defnydd o ased gan wasanaeth.** |

| | | |
|---|---|---|
| **5.** | **Y GYLLIDEB AR GYFER 2016/17, STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A RHAGLEN GYFALAF AR GYFER 2016-2021** | **CC19 - 2016** |

Ystyriodd y Cyngor y gyllideb ar gyfer 2016/17, Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2016/2019 a Rhaglen Gyfalaf 2016/2021. (Mae copi wedi'i ffeilio gyda'r cofnodion a arwyddwyd).

Esboniodd yr Aelod Portffolio - Cyllid fod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn ogystal â chyflwyno cyllideb gytbwys ar gyfer 2016/17, yn nodi cynigion dros dro hyd at 31ain Mawrth 2019, gan roi sefyllfa gytbwys dros dair blynedd. Wrth gyflwyno'r adroddiad diolchodd yr Aelod Portffolio i'w gydweithwyr ar y Cabinet, aelodau'r Pwyllgor Craffu a swyddogion am eu gwaith wrth lunio'r gyllideb. Cydnabu hefyd y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a chefnogaeth Aelodau'r Cynulliad yn lobïo am hyn a oedd yn golygu nad oedd yn rhaid i'r Cabinet gyflwyno nifer o doriadau i wasanaethau a oedd wedi bod dan ystyriaeth. Atgoffodd yr Aelod Portffolio - Cyllid y Cyngor am yr arbedion a

gyflawnwyd eisoes ac am yr arbedion sydd i'w gwneud o hyd at 2020. Er gwaetha'r angen i wneud arbedion roedd y Cabinet yn argymell amddiffyn y gyllideb ysgolion o £1.273 miliwn a rhoi cyllid ychwanegol o 2% ar gyfer cyllideb y Gofal Cymdeithasol i Oedolion gan fod y cyhoedd wedi rhoi cefnogaeth glir i hyn yn yr ymgynghoriad. Esboniodd yr Aelod Portffolio - Cyllid mai'r dull a gymerwyd gan y Cabinet oedd cyflwyno cyllideb ar gyfer newid oedd yn cadw gwasanaethau rheng flaen heb eu cwtogi drwy gefnogi'r agenda trawsnewid. Roedd y Cabinet yn argymell cynnydd o 4.25% yn Nhreth y Cyngor ac esboniodd yr Aelod Portffolio - Cyllid fod £500,000 wedi cael ei gymryd o'r cronfeydd wrth gefn i leihau'r cynnydd a argymhellwyd o 5%.

Atebodd yr Aelodau Portffolio gwestiynau gan yr Aelodau. Mewn ymateb i'r sylwadau am yr Asesiadau Effaith Integredig Sengl (SIIAs), cytunodd yr Aelod Portffolio - Cyllid fod angen iddynt gael eu cwblhau yn fwy cyson a chywir. Dywedodd y byddai hyfforddiant a chanllawiau yn cael eu rhoi i swyddogion fyddai yn eu cwblhau. Byddai hyfforddiant yn cael ei roi hefyd i aelodau portffolio gan fod angen iddynt eu llofnodi. Byddai gwaith ar SIIAs y flwyddyn nesaf yn dechrau ym mis Ebrill a mis Mai.

Mynegodd nifer o Aelodau bryderon ynghylch rhai o'r arbedion arfaethedig a heriwyd yr Aelodau Portffolio ynghylch effaith arbedion ar wasanaethau. Esboniodd yr Aelod Portffolio - Cyllid fod toriadau ar y raddfa roedd yn rhaid i'r Cyngor eu cyflwyno yn gofyn am ailfeddwl ynghylch sut y caiff gwasanaethau eu darparu gan gynnwys trosglwyddo gwasanaethau i gymunedau fel dewis yn hytrach na'u dileu. Dadleuodd nifer o aelodau fod lefel arfaethedig Treth y Cyngor yn anfforddiadwy, a bod y fformiwla ariannu yn annheg. Dywedodd yr Aelod Portffolio - Cyllid y byddai gosod Treth y Cyngor yn is yn peryglu unrhyw gymorth gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol a'i fod ar ddeall bod y fformiwla ariannu yn cael ei hadolygu.

Gadawodd y Cynghorydd Sir P Harris am 11:58 a.m.
Cyrhaeddodd y Cynghorydd Sir W D Powell am 12:35 p.m.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir D R Price ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sir A G Thomas bod y mater yn cael ei gynnig.

**PENDERFYNWYD bod y mater yn cael ei gynnig.**

Cynigiodd yr Aelod Portffolio dros Gyllid yr argymhellion yn yr adroddiad, cafodd hyn ei eilio'n briodol a

| **PENDERFYNWYD** | **Rheswm am y Penderfyniad:** |
|---|---|
| **1. Cymeradwyo'r Gyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2016/17 a ddangosir yn y Model Adnoddau Ariannol yn Atodiad 2 i'r adroddiad.** | **Gofyniad Statudol** |
| **2. Bod cynnydd o 4.25% yn Nhreth y Cyngor yn cael ei gynnwys yn y gyllideb a fydd yn mynd i'r Cyngor** | **Mae Gofyniad Statudol i osod Treth y Cyngor ond mae'r lefel yn fater i'w benderfynu'n lleol.** |

| | |
|---|---|
| **llawn ar 9 Mawrth, 2016.** | |
| **3. Bod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2016-2019 fel y nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad yn cael ei chytuno mewn egwyddor.** | **Cynorthwyo cynllunio busnes a datblygu'r gyllideb dros gyfnod o dair blynedd** |
| **4. Y dylai'r terfyn benthyca awdurdodedig ar gyfer 2016/17 fel sy'n ofynnol o dan adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 2003 gael ei gymeradwyo fel y nodir ym mharagraff 9.9 yr adroddiad.** | **Gofyniad Statudol** |
| **5. Bod y Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2016/17 yn cael eu cymeradwyo fel y nodir yn adran 9 yr adroddiad.** | **Gofyniad Statudol** |

**Cyllideb Gyfalaf 2016/17 i 2019/20**

Cyflwynodd yr Aelod Portffolio - Cyllid y gyllideb. Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y 4 blynedd nesaf oedd £163 miliwn a fyddai'n cael effaith sylweddol o ran adfywio economi Powys yn ogystal â gwella'r seilwaith i ddarparu gwasanaethau. Roedd buddsoddiad cyfalaf hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni arbedion refeniw.

Trafododd y Cyngor Stad Ffermydd y Sir a manteisio i'r eithaf ar adenillion ar fuddsoddiad y Cyngor. Datganodd y Cynghorydd Sir TJ Van Rees fuddiant personol a buddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth. Cytunai'r Aelod Portffolio - yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd fod angen cael cymaint o arian yn ôl â phosibl a dywedodd y byddai adroddiad ar Stad Ffermydd y Sir yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mai.

Mewn ymateb i gwestiwn ar y gyllideb gyfalaf ar gyfer ysgolion arbennig, dywedodd yr Aelod Portffolio- Addysg y byddai adroddiad yn dod i'r Cabinet ac addawodd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynghorydd Sir J R Jones ac i lywodraethwyr Ysgol Cedewain.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir A W Davies ac eiliodd y Cynghorydd Sir G D Price welliannau i'r Rhaglen Gyfalaf.

Gohiriwyd y Cyngor am 13.45 ac fe wnaeth ailymgynnull am 14.15.

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir PJ Ashton (Chair)

Y Cynghorwyr Sir M C Alexander, D Bailey, GR Banks, R G Brown, J H Brunt, LV Corfield, A W Davies, D E Davies, E R Davies, L R E Davies, S C Davies, S Davies, M J Dorrance, V E Evans, R I George, MR Harris, S M Hayes, A

Holloway, J C Holmes, E A Jones, D C Jones, D R Jones, M J Jones, E M Jones, G M Jones, J R Jones, W T Jones, F H Jump, H Lewis, DJ Mayor, S McNicholas, P J Medlicott, G Morgan, W J T Powell, W D Powell, G D Price, P C Pritchard, K M Roberts-Jones, K S Silk, D A Thomas, W B Thomas, D G Thomas, R G Thomas, TG Turner, T J Van-Rees, G P Vaughan, D H Williams, S L Williams, J M Williams, G I S Williams ac E A York

Cynigiodd y Cynghorydd Sir A W Davies ac eiliodd y Cynghorydd Sir G D Price ddau welliant i'r Rhaglen Gyfalaf.

1. Bod £1 miliwn ychwanegol o gyfalaf yn cael ei ddyrannu i Raglen Gyfalaf y Gwelliannau Mawr i Ysgolion bob blwyddyn o 2017/18 i 2019/20.
2. Bod y Cabinet yn ystyried sefydlu cronfa o £500,000 ar gyfer 2017/18 i gefnogi gwelliannau cyfalaf ar gyfer asedau a drosglwyddwyd i gymunedau.

Pleidleisiodd y Cyngor ar y gwelliant cyntaf

**PENDERFYNWYD bod £1 miliwn ychwanegol o gyfalaf yn cael ei ddyrannu i Raglen Gyfalaf y Gwelliannau Mawr i Ysgolion bob blwyddyn o 2017/18 i 2019/20.**

Pleidleisiodd y Cyngor ar yr ail welliant. Collwyd y gwelliant wedi ei roi i bleidlais.

Cynigiwyd y Strategaeth Gyfalaf gan yr Aelod Portffolio - Cyllid, cafodd ei heilio a'i rhoi i bleidlais.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| **Yn ddarostyngedig i'r gwelliant a gytunwyd uchod, penderfynwyd y dylid cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2016/17 a ddangosir yn Atodiad 4.** | **Gofyniad Statudol** |

Diolchodd yr Arweinydd i'r Aelod Portffolio - Cyllid, aelodau eraill y Cabinet, swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor Craffu am eu gwaith ar y gyllideb.

| 6. | PENODI I OFAL A THRWSIO | CC20 - 2016 |
|---|---|---|

Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried gwneud apwyntiad i Gofal a Thrwsio. Enwebwyd y Cynghorwyr Sir G. M. Jones a K.M. Roberts-Jones. Yn dilyn pleidlais

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| **Bod y Cynghorydd Sir K.M. Roberts-Jones yn cael ei henwebu i gynrychioli'r Cyngor ar Gofal a Thrwsio.** | **I sicrhau cynrychiolaeth y Cyngor.** |

| 7. | **CWESTIWN I'R AELOD PORTFFOLIO - YR AMGYLCHEDD A CHYNALIADWYEDD GAN Y CYNGHORYDD SIR GARETH RATCLIFFE** | **CC21 - 2016** |
|---|---|---|

1. **A allai'r aelod portffolio roi gwybodaeth am nifer yr aelwydydd sy'n dal ar gasgliadau sachau porffor ac esbonio'r penderfyniad a wnaed ynghylch costau prynu sachau porffor newydd?**

2. **A allai'r aelod portffolio nodi'r costau a godir gan gynghorau eraill sy'n gweithredu'r system sachau?**

1. *Ar hyn o bryd mae 13,700 eiddo yn cael eu gwastraff gweddilliol wedi ei gasglu mewn sachau porffor. Mae'r rhain yn gartrefi a ystyrir yn anaddas ar gyfer biniau olwynog, sef y dewis a ffafrir lle gellir trefnu hynny. Mae pob eiddo yn derbyn dyraniad blynyddol o sachau porffor am ddim (3 rholyn o 26 o fagiau) sy'n cyfateb i fin olwynog 180 litr safonol llawn wedi ei gasglu bob tair wythnos. Mae hyn yn golygu bod gan bob eiddo, p'run a ydynt ar sachau porffor neu finiau olwynog, yr un capasiti ar gyfer eu gwastraff gweddilliol dros gyfnod o ddeuddeg mis. Os oes ar drigolion angen capasiti ychwanegol mae'n rhaid iddynt brynu sachau porffor ychwanegol.*

   *Mae cost y sachau ychwanegol (£51.88 am bob rholyn o 26) yn mynd tuag at dalu am y costau casglu a gwaredu a hefyd yn annog preswylwyr i gynyddu faint y maent yn ei ailgylchu ac felly leihau unrhyw angen am gapasiti gweddilliol ychwanegol. Nid oes cyfyngiad ar nifer y cynwysyddion ailgylchu y gallai aelwydydd eu cael a'u rhoi allan.*

2. *Mae awdurdodau ar draws Cymru yn cynnig nifer o systemau gwahanol ar gyfer casglu gwastraff gweddilliol sy'n gwneud cymharu costau'r bagiau yn anodd. Mae gan Gyngor Dinas Caerdydd system debyg gyda thâl am gapasiti ychwanegol (£10 am y pum bag cyntaf a £1.85 y bag ar ôl hynny), tâl sy'n debyg i dâl Powys.*

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

**Materion Eraill**
Roedd y Cyngor yn falch o nodi llwyddiant CFfI Dyffryn Tanat a Bro Ddyfi yng Ngŵyl Ddrama CFfI Sir Drefaldwyn.

**Y Cynghorydd Sir PJ Ashton (Chair)**